

# Ffurflen cofrestru etholiadol ar gyfer Gwas y Goron neu weithiwr y British Council neu briod neu bartner sifil

## Ydw i'n gymwys i gofrestru?

Os ydych yn gweithio tu allan i'r DU fel Gwas y Goron (e.e. yn y gwasanaethau diplomataidd neu'r gwasanaeth sifil tramor) neu fel gweithiwr y British Council gallwch gofrestru i bleidleisio yn y DU. Gallwch hefyd gofrestru os ydych yn briod neu bartner sifil Gwas y Goron neu weithiwr y British Council a'ch bod gyda nhw yn ystod eu cyfnod o gyflogaeth tramor.

Mae angen i chi fod wedi'ch cofrestru yn y cyfeiriad lle byddech yn byw petaech chi yn y DU, neu eich cyfeiriad cofrestredig diwethaf yn y DU.

## Alla i bleidleisio ym mhob etholiad yn y DU?

Gall dinasyddion Prydeinig, dinasyddion Gwyddelig, a dinasyddion cymwys y Gymanwlad (gan gynnwys Cyprus a Malta) bleidleisio ym mhob etholiad. Dinasyddion cymwys yw dinasyddion y Gymanwlad sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu aros yn y DU, neu nad oes angen caniatâd o'r fath arnynt.

Gall dinasyddion gwledydd eraill yr UE bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol ond ni allant bleidleisio mewn etholiadau Senedd y DU. Gall y rheiny sy'n preswyllo yng Nghymru hefyd bleidleisio yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Os ydych yn ddinesydd yr UE ac am bleidleisio yn etholiadau Senedd Ewrop mae'n rhaid i chi lenwi ffurflen arall. Cysylltwch â'ch Swyddog Cofrestru Etholiadol, gallwch ddod o hyd i'w cyfeiriad yn [www.fymhleidlaisi.co.uk](http://www.fymhleidlaisi.co.uk)

## Sut i gofrestru i bleidleisio

- 1 Llenwch y ffurflen gofrestru etholiadol hon.
- 2 Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n llofnodi'r datganiad.
- 3 Anfonwch y ffurflen wedi'i llofnodi at y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn eich cyngor lleol. Mae eu cyfeiriad ar gael yn [www.fymhleidlaisi.co.uk](http://www.fymhleidlaisi.co.uk)

**Cofrestrwch i bleidleisio cyn gynted ag y gallwch**, neu efallai y bydd hi'n rhy hwyr i bleidleisio yn yr etholiad nesaf.



## Ewch ar-lein

Gallwch lenwi'r ffurflen hon yn  
[www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio](http://www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio)

## Pwy sy'n gymwys i bleidleisio?

Gallwch gofrestru i bleidleisio yn y DU os ydych yn:

- preswyllo (fel arfer yn byw yn y DU neu y byddech pe na baech yn Was y Goron, gweithiwr y British Council neu eu priod/partner sifil), a
- yn 16 oed neu'n hŷn (ond ni fyddwch yn gallu pleidleisio hyd nes eich bod yn 18).

Mae'n rhaid i chi hefyd fod un ai:

- yn ddinesydd Prydeinig, Gwyddelig neu'r Undeb Ewropeaidd, neu
- yn ddinesydd y Gymanwlad sydd â chaniatâd i aros yn y DU, neu nad oes angen caniatâd i aros yn y DU.

Ffurflen cofrestru etholiadol ar gyfer Gwas y Goron neu weithiwr y British Council neu briod neu bartner sifil

# Cofrestru i bleidleisio

Dim ond un person gall gofrestru i bleidleisio gan ddefnyddio'r ffurflen hon.  
Defnyddiwch **inc du** ac ysgrifennwch mewn PRIFLYTHRENNAU



## Ewch ar-lein

Gallwch lenwi'r ffurflen hon yn  
[www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio](http://www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio)

### Eich enw a'ch cyfeiriad

Enw(au) cyntaf

Cyfenw

Eich cyfeiriad cofrestru yn y DU

Cod post

Dyma'r cyfeiriad:

☐ y byddwn i'n byw ynddo pe na bai fi neu fy mhriod neu bartner sifil yn gweithio tramor

☐ yr wyf wedi byw ynddo yn y gorffennol.

Eich cyfeiriad presennol tu allan i'r DU

Ydych chi'n byw mewn cyfeiriad arall?

☐ Nac ydw ☐ Ydw

Rhowch gyfeiriad llawn yn y DU lle'r hoffech gofrestru. Gall hyn fod yn un o'r canlynol:

- y cyfeiriad llawn yn y DU y byddech yn byw ynddo pe na bai chi neu'ch priod neu'ch partner sifil yn gweithio tramor
- cyfeiriad lle'r ydych wedi byw yn y gorffennol.

Byddwn yn defnyddio'r cyfeiriad hwn i gysylltu â chi ynghylch eich cofrestriad yn unig.

**Os ydych hefyd yn byw mewn cyfeiriad arall** peidiwch â rhoi'r cyfeiriad i ni nawr, ond efallai y gofynnwn am fwy o fanylion yn hwyrach.

### Ydych chi wedi newid eich enw yn y 12 mis diwethaf?

☐ Nac ydw ☐ Ydw

Os ydych rhowch eich enw blaenorol i ni.

Rhowch y dyddiad y newidoch eich enw (DD MM BBBB).

Er enghraifft, efallai eich bod wedi priodi.

### Ydych chi wedi symud yn y 12 mis diwethaf?

☐ Nac ydw ☐ Ydw

Os ydych, rhowch unrhyw gyfeiriad blaenorol yr ydych wedi byw yn y flwyddyn ddiwethaf.

Cod post

Os oedd y cyfeiriad hwn tramor, oeddech chi wedi'ch cofrestru yn y DU fel pleidleisiwr tramor?

☐ Nac oeddwn ☐ Oeddwn

## Manylion cyflogaeth

- ☐ Rwy'n gweithio (neu ar fin dechrau gweithio) fel Gwas y Goron tu allan i'r DU.
- ☐ Rwy'n gweithio (neu ar fin dechrau gweithio) fel gweithiwr i'r British Council tu allan i'r DU.
- ☐ Rwy'n briod neu'n bartner sifil Gwas y Goron sy'n gweithio tu allan i'r DU.
- ☐ Rwy'n briod neu'n bartner sifil gweithiwr i'r British Council sy'n gweithio tu allan i'r DU.

Beth yw eich swydd chi/eu swydd nhw?

Beth yw eich/eu rhif staff, rhif cyflogres neu rif adnabod arall?

Cynhwyswch enw adran y llywodraeth.

## Eich dyddiad geni (DD MM BBBB)

     

Os nad ydych yn sicr o union ddyddiad eich geni, ticiwch un o'r canlynol:

- ☐ O dan 18   ☐ 18–70   ☐ Dros 70

**Ddim yn gwybod union ddyddiad eich geni?** Rhowch y dyddiad geni yr ydych yn rhoi ar ddogfennau swyddogol eraill (er enghraifft eich pasbort neu'ch trwydded yrru) neu ticiwch un o'r blychau.

## Eich cenedligrwydd

**Os oes gennych fwy nag un cenedligrwydd,** cynhwyswch nhw i gyd. Gallwch gofrestru i bleidleisio yn y DU os oes gennych ganiatâd i wneud hynny. Fe allwn wirio statws eich mewnfudo gyda'r Swyddfa Gartref cyn i ni'ch cynnwys ar y gofrestr etholiadol.

## Eich Rhif Yswiriant Gwladol

Efallai y bydd y rhif hwn i'w gael ar eich slip cyflog, neu ar lythyron swyddogol ynghylch treth, pensiynau neu fudd-daliadau.

     

**Os nad ydych yn gwybod eich Rhif Yswiriant Gwladol,** efallai y bydd angen i ni ofyn am brawf o'ch hunaniaeth. Byddwn yn cysylltu â chi ynghylch hyn, a gallai gymryd mwy o amser i ddelio gyda'ch cais.

## Ddim yn gwybod eich cenedligrwydd, eich dyddiad geni neu'ch Rhif Yswiriant Gwladol?

Dywedwch wrthym pam.

## Manylion cyswllt

Rhif(au) ffôn

Cyfeiriad e-bost (os oes gennych un) mewn PRIFLYTHRENNAU

Does dim rhaid i chi roi eich manylion cyswllt i ni, ond os gwnewch chi bydd yn ei gwneud hi'n haws i ni gysylltu â chi ynghylch eich cofrestriad.

## Y gofrestr agored

- ☐ Dydw i ddim am i fy enw a'm cyfeiriad gael eu cynnwys ar y gofrestr agored.

Mae mwy o wybodaeth am y gofrestr agored ar dudalen 4 y ffurflen hon.

## Cofrestru yn ddienw

- ☐ Rwy hefyd wedi cyflwyno cais i gofrestru'n ddienw.

## Methu pleidleisio'n bersonol?

Os nad ydych yn gallu mynd i'r orsaf bleidleisio yn bersonol ar y diwrnod pleidleisio, dewiswch sut yr hoffech bleidleisio a byddwn yn anfon ffurflen atoch.

- ☐ Drwy'r post
- ☐ Drwy ddirprwy (rhywun yn pleidleisio ar eich rhan)

Gallwch hefyd lawrlwytho ffurflen gais o [www.fymhleidlaisi.co.uk](http://www.fymhleidlaisi.co.uk)

## Datganiad

Rwy'n cadarnhau fy mod yn ddinesydd Prydeinig, Gwyddelig, yr Undeb Ewropeaidd neu'n ddinesydd cymwys y Gymanwlad.

Rwy'n cadarnhau y byddwn yn byw yn y DU pe na bai fi neu fy mhriod neu fy mhartner sifil yn Was y Goron neu'n weithiwr i'r British Council.

Hyd eithaf fy ngwybodaeth mae'r wybodaeth ar y ffurflen hon yn wir. Deallaf y bydd y wybodaeth yr wyf wedi'i rhoi ar y ffurflen hon yn cael ei defnyddio ar y gofrestr etholiadol.

Deallaf os nad ydwyf yn gwneud cais i gofrestru pan fod gofyn gwneud y gallaf wynebu dirwy o £80.

Deallaf ei bod hi'n drosedd i roi camwybodaeth ar y ffurflen hon gan wybod hynny, ac y gallaf wynebu dirwy ddiderfyn a/neu hyd at chwe mis yn y carchar.

### Llofnod

### Dyddiad (DD MM BBBB)

       

### Dinasyddion cymwys y

**Gymanwlad** yw'r rheiny sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu aros yn y DU, neu nad oes angen caniatâd o'r fath arnynt.

## Nawr llofnodwch a dychwelwch y ffurflen

Anfonwch y ffurflen wedi'i llofnodi at y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn eich cyngor lleol. Mae eu cyfeiriad ar gael yn [www.fymhleidlaisi.co.uk](http://www.fymhleidlaisi.co.uk)

## Pan fyddwn yn derbyn eich ffurflen

- ▶ Os oes angen mwy o wybodaeth arnom - er enghraifft, ynghylch cyfeiriad arall, neu os ydych yn ddinesydd y Gymanwlad, ynghylch eich statws mewnffud - byddwn yn cysylltu â chi.
- ▶ Os ydych yn gymwys, byddwn yn anfon cadarnhad atoch eich bod chi ar y gofrestr etholiadol. Os ydych yn 16 neu'n 17 byddwn yn gadael i chi wybod pan eich bod chi ar y gofrestr.

## Gwybodaeth arall

### Y gofrestr agored

#### Mae dwy gofrestr. Pam?

Gan ddefnyddio gwybodaeth a dderbyniwyd gan y cyhoedd, mae swyddogion cofrestru yn cadw dwy gofrestr - y gofrestr etholiadol a'r gofrestr agored (a elwir y gofrestr olygedig hefyd).

#### Y gofrestr etholiadol

Mae'r Gofrestr etholiadol yn rhestru enwau a chyfeiriadau pawb sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio mewn etholiadau cyhoeddus. Defnyddir y gofrestr at ddibenion etholiadol, megis sicrhau mai dim ond pobl sy'n gymwys i wneud all bleidleisio. Fe'i defnyddir hefyd at ddibenion cyfyngedig eraill a nodir mewn cyfraith, megis:

- canfod trosedd (e.e. twyll)
- galw pobl i wasanaeth rheithgor
- gwirio ceisiadau credyd.

#### Y gofrestr agored

Mae'r gofrestr agored yn ddetholiad o'r gofrestr etholiadol, ond ni chaiff ei ddefnyddio ar gyfer etholiadau. Gall gael ei brynu gan unrhyw berson, cwmni neu sefydliad. Er enghraifft, caiff ei ddefnyddio gan fusnesau ac elusennau i gadarnhau manylion enw a chyfeiriad.

Bydd eich enw a'ch cyfeiriad yn cael eu cynnwys yn y gofrestr agored heblaw eich bod yn gofyn iddynt gael eu tynnu. I wneud hyn, cysylltwch â ni. Nid yw tynnu eich manylion oddi ar y gofrestr agored yn effeithio ar eich hawl i bleidleisio.

Gallwch gael mwy o wybodaeth am y ddwy gofrestr a sut y gellid eu defnyddio yn [www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio](http://www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio).

### Eich gwybodaeth bersonol

Dim ond at ddibenion etholiadol y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth yr ydych yn rhoi i ni. Byddwn yn gofalu am wybodaeth bersonol yn ddiogel a byddwn yn dilyn Deddf Diogelu Data 1998. Ni fyddwn yn rhoi gwybodaeth bersonol amdanoch chi na'r bobl eraill yn eich cartref i unrhyw berson na sefydliad arall heblaw bod yn rhaid i ni yn ôl y gyfraith.